

Iesu'n Dysgu'r Bobl (1)

Pan oedd yr Iesu'n 30 oed, dechreuodd Ei waith ar y ddaear. Roedd yn pregethu'r Newyddion Da am Dduw. Pregeth fwyaf enwog Iesu yn y Beibl yw'r Bregeth ar y Mynydd. Yn y bregeth hon, siaradodd yr Iesu am lawenydd ac ymddygiad. Dywedodd fod Ei ddilynwyr yn halen y ddaear ac yn oleuni'r byd. Mae halen yn rhoi blas ar fwyd. Ond pa werth yw halen os yw wedi colli ei flas? Mae'r un peth yn wir am oleuni. Mae'n ein helpu i weld yn y tywyllwch. Ond ni all golau wedi'i guddio loywi'r tywyllwch. Mae plant Duw i fod yn halen ac yn oleuni yn y byd.



"Dyna sut dylai'ch golau chi ddisgleirio, er mwyn i bobl foli'ch Tad yn y nefoedd wrth weld y pethau da dych chi'n eu gwneud." Mathew 5:16





Mae'r bachgen fel golau i'r ferch sâl. Sut allwch chi fod yn olau'r wythnos hon?



I bwy y pregethodd lesu ar y mynydd?



Rhowch gylch o gwmpas y pethau sy'n disgleirio!



Gwers 11

Iesu'n Dysgu'r Bobl (1)

Testun y Beibl: Mathew 5:1-16

Adnod allweddol: Mathew 5:16

Pwrpas: Bydd y plant yn darganfod bod angen i ddisgyblion yr Iesu fod yn halen ac yn oleuni yn y byd.

Nodwch os gwelwch yn dda!

Cynlluniwch weithgareddau addas ar gyfer eich grŵp o blant. Gall y gweithgareddau canlynol gael eu haddasu'n dibynnu ar faint, oed a gallu'r grŵp, ynghyd â'r amser sydd ar gael ac yn y blaen.

1. Gwers

Wedi i'r plant orffen y dudalen liwio, darllenwch Mathew 5:1-16 iddyn nhw. Yna, eglurwch y prif syniadau.

Awgrym: Ar gyfer y plant ieuengaf, defnyddiwch ddelweddau, byrddau darlunio lliwgar gyda'r Iesu a'r torfeydd.

Pan oedd yr Iesu'n 30 oed, dechreuodd Ei waith ar y ddaear. Roedd yn pregethu'r Newyddion Da am Dduw. Pregeth fwyaf enwog Iesu yn y Beibl yw'r Bregeth ar y Mynydd. Roedd llawer o bobl yno: dynion a menywod, bechgyn a merched, pobl dlawd a phobl gyfoethog. Roedd pawb yn gwrandao ar yr Iesu, am Ei fod yn dweud y gwir.

Mae'r Iesu'n bendithio'r rhai sy'n sylweddoli eu bod Ei angen, y rhai sy'n galaru (y rhai sy'n dioddef), y rhai sy'n addfwyn, y rhai sy'n drugarog, y rhai â chalon bur, y tangnefeddwyr a'r rhai sy'n cael eu herlid am eu bod yn byw i Dduw. Efallai ein bod yn meddwl ein bod yn anhapus. Ond os ydym yn blant i Dduw, byddwn yn hapus. Os gwnawn Ei ewyllys, bydd yn ein gwobrwyo yn y nefoedd.

Dywedodd Iesu fod plentyn i Dduw yn debyg i halen. Mae halen yn rhoi blas neis i fwyd. Ond os yw'n colli'i flas, mae'n dda i ddim. Mae'n rhaid i Gristion fod yn esiampl dda, fel arall nid yw'n ddefnyddiol. Hefyd, mae angen i blentyn i Dduw fod yn oleuni yn y tywyllwch. Mae'n rhaid i'w weithredoedd, yr hyn mae'n ei wneud, gael eu gweld gan bawb ac yn y ffordd hon mae'n dangos ei fod yn blentyn i Dduw.

Awgrym: ar gyfer y plant ieuengaf, defnyddiwch wrthrychau i'w helpu i ddeall y wers. Dyma rai enghreifftiau posibl:

1. Rhowch un gracer heb halen ac yna rhowch un gracer â halen iddyn nhw. Gofynnwch beth yw'r gwahaniaeth rhwng y ddwy gracer.
2. Dywedwch wrth y plant am gau eu llygaid a gadewch iddyn nhw gerdded o gwmpas â'u llygaid ar gau. Yna dywedwch wrthyn nhw am agor eu llygaid. Byddant yn sicr yn deall beth yw gwerth goleuni.

3. Dangoswch sut mae tortsh yn goleuo. Yna cuddiwch y dortsh o dan got. Gadewch iddyn nhw ddweud beth yw eu barn am y ffordd o ddefnyddio tortsh.

II. Gweithgareddau

1. Adnod allweddol

a. Darllenwch yr adnod o'r Beibl yn uchel.

"Dyna sut dylai'ch golau chi ddisgleirio, er mwyn i bobl foli'ch Tad yn y nefoedd wrth weld y pethau da dych chi'n eu gwneud." Mathew 5:16.

b. Eglurwch yr adnod, gan ofyn cwestiynau i'r plant.

- Pam fod angen golau arnom ni?
- Sut allwn ni fod yn oleuni?
- Pam fod Duw eisiau i ni fod yn oleuni?

c. Helpwch y plant i ddysgu'r adnod. Defnyddiwch ffyrdd creadigol.

2. Adolygwch y cwestiynau ar gyfer y plant.

- Beth sydd angen i'r halen fod?
- Ble mae angen y golau?
- Rhowch enghreifftiau o'r bobl y mae'r Iesu'n siarad amdanynt.

III. Diweddsglo

Mae'r ffordd rydych yn byw eich bywyd yn dangos a ydych yn blentyn i Dduw. Os byddwch yn byw eich bywyd i'r Iesu, byddwch yn cael gwobr fawr – nid ar y ddaear ond yn y nefoedd. Pa bethau da allwch chi eu gwneud yr wythnos hon fel bod eich golau chi'n disgleirio?